# Cofnodion

| | |
|---|---|
| **Teitl y cyfarfod:** | Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru ar Lygredd Amaethyddol |
| **Lleoliad:** | Cyfarfod Microsoft Teams |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 29 Ionawr 2024 |
| **Aelodau a oedd yn bresennol:** | Rhys A. Jones, Aelod o Fwrdd CNC (Cadeirydd)<br>Dennis Matheson, Cymdeithas y Ffermwyr Tenant (TFA)<br>Gareth Parry, Undeb Amaethwyr Cymru (FUW)<br>Ieuan S. Davies, CNC<br>Andrew Chambers, Llywodraeth Cymru<br>Sarah Jones, Dŵr Cymru Welsh Water<br>Creighton Harvey, Ffederasiwn Pysgotwyr Sir Gaerfyrddin (CFF)<br>Kate Snow, United Utilities<br>Chris Mills, Afonydd Cymru<br>Marc Williams, CNC<br>Jon Goldsworthy, CNC<br>Sarah Hetherington, CNC<br>David Ball, Y Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth (AHDB)<br>Einir Williams, Cyswllt Ffermio<br>Matt Walters, Llywodraeth Cymru<br>Ruth Johnstone, CNC<br>Chris R. Thomas, CNC |
| **Hefyd yn bresennol:** | Hilary Foster, CNC (Eitem 2)<br>Gideon Carpenter, CNC (Eitem 2)<br>Thomaz Andrade, CNC (Eitem 3)<br>Dave Jones, CNC (Eitem 3)<br>Yr Athro Steve Ormerod, Aelod o Fwrdd CNC a Chadeirydd Fforwm Pysgodfeydd Cymru a Fforwm Rheoli Dŵr Cymru<br>Betsan John, Llywodraeth Cymru<br>Alys Routley, Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol<br>Ben Wilson, CNC<br>Adriana Kiss, Llywodraeth Cymru<br>Kristian Kent, Yr Ymddiriedolaeth Bysgota<br>Tom Johnstone, Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog<br>Inoka T. Manatunga, CNC<br>Brian Stewart, Llywodraeth Cymru<br>Denise Ashton, Yr Ymddiriedolaeth Brithyll Gwyllt<br>Guy Mawle, Grŵp Pysgodfa Leol Afon Wysg<br>Gwenllian Roberts, Ofwat<br>Alwyn Roberts, Dŵr Cymru |

| | |
|---|---|
| **Ymddiheuriadau:** | Katy Simmons, CNC<br>Delyth Lewis-Jones, AHDB<br>Russ Thomas, Hybu Cig Cymru<br>Nichola Salter, CNC<br>Rachel Lewis-Davies, NFU Cymru |
| **Ysgrifenyddiaeth:** | Bronwen Martin, CNC |

## Eitem 1. Cyflwyniadau, Ymddiheuriadau a Datgan Buddiannau

1. Croesawodd yr Athro Rhys A. Jones (Aelod o Fwrdd CNC a Chadeirydd Is-grŵp y Fforwm) bawb i'r cyfarfod Microsoft Teams a nododd yr ymddiheuriadau. Trefnwyd y cyd-sesiwn hon ar gyfer aelodau Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru ar Lygredd Amaethyddol, Fforwm Pysgodfeydd Cymru a Fforwm Rheoli Dŵr Cymru gan fod sylwedd y pynciau o ddiddordeb cyffredin i'r holl fforymau.

2. Caiff y cyfarfod ei recordio er mwyn cael cofnod o'r cofnodion. Bydd y ffeil ddigidol yn cael ei dileu ar ôl i gofnodion y cyfarfod gael eu cymeradwyo.

3. Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau mewn perthynas ag eitemau'r agenda.

    - DS: Mae holl aelodau'r grŵp wedi llenwi ffurflenni datgan buddiannau eisoes, ond dylent gyflwyno datganiad os oes ganddynt fuddiannau mewn unrhyw beth ar yr agenda.

## Eitem 2: Trosolwg o Asesu Cydymffurfiaeth Nodweddion Ansawdd Dŵr

4. Ymunodd Hilary Foster, CNC â'r cyfarfod i gyflwyno trosolwg byr o'r adroddiad a'r prif ganlyniadau: Cyfoeth Naturiol Cymru / Asesiad ansawdd dŵr afonydd gwarchodedig yng Nghymru.

5. Cyflwynodd Hilary Afonydd Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) yng Nghymru, cefndir Targedau Ansawdd Dŵr yn yr Afonydd ACA, trosolwg o ganlyniadau'r asesiadau cydymffurfio a chrynodeb o rai argymhellion cyffredinol.

***PW01 29 Ionawr: Dylai Bronwen Martin, CNC, ddosbarthu copi o'r cyflwyniad 'Asesu Cydymffurfiaeth Nodweddion Ansawdd Dŵr' a manylion cyswllt Hilary Foster, CNC.***

6. Diolchodd Guy Mawle i Hilary am y cyflwyniad ac am ansawdd yr adroddiad. Nododd Guy fod yna fwlch data a rheoleiddio mewn perthynas â gwaddodion a solidau crog. Roedd solidau crog yn un o'r targedau yn 2005 a chynhaliwyd yr asesiad diwethaf yn eu cylch yn 2012 gan ragflaenydd CNC. Dengys hyn fethiant cyffredinol yn erbyn y targed ac ni sonnir am solidau crog na siltio yn yr adroddiad hwn. Yn ôl y Canllawiau Monitro Safonau Cyffredin ar gyfer Cynefinoedd Dŵr Croyw (2016), roedd yna gytundeb cyffredinol bod siltio ymhlith y pwysau mwyaf cyffredin ar afonydd mewn tirweddau ffermio, a bod hyn yn fygythiad mawr i nodweddion o ddiddordeb, yn cynnwys eogiaid a misglod perlog yr afon. Cytunodd Hilary fod solidau crog yn bwysau difrifol, ond yr unig beth a ystyrir yn yr asesiad cydymffurfio hwn yw nodweddion ansawdd dŵr o fewn y canllawiau Monitro Safonau Cyffredin. Mae'r canllawiau Monitro Safonau Cyffredin yn mynnu ein bod yn ystyried nifer o nodweddion eraill er mwyn cael

darlun llawn o gyflwr Afonydd ACA, a chynhwysir gwaddodion fel nodwedd ar wahân, yn yr un modd ag elfennau eraill fel Arolygon o Gynefinoedd Afonydd, cymunedau macroffytau, cymunedau infertebratau etc. Felly, dim ond nodweddion ansawdd dŵr a ystyrir yn yr adroddiad hwn; nid yw'n cynnig asesiad llawn o gyflwr Afonydd ACA, lle ystyrir yr holl nodweddion eraill hynny hefyd. Dywedodd Guy ei fod yn poeni bod gwaddodion wedi mynd yn angof, oherwydd nid yw wedi gweld unrhyw dystiolaeth sy'n awgrymu bod CNC yn ystyried gwaddodion. Dywedodd Guy y byddai'n ddiolchgar pe bai modd i rywun dynnu ei sylw at wybodaeth/data gan CNC yn ymwneud â monitro gwaddodion. Dywedodd Hilary mai trwy gyfrwng Arolygon o Gynefinoedd Afonydd y caiff gwaddodion eu monitro ac esboniodd nad oes gennym raglen arolygu o'r fath ar waith ar hyn o bryd. Rhannodd yr Athro Steve Ormerod, Aelod o Fwrdd CNC a Chadeirydd Fforwm Pysgodfeydd Cymru a Fforwm Rheoli Dŵr Cymru, ddolenni gwe ar gyfer rhai papurau ymchwil yn ymwneud ag anawsterau o ran mesur gwaddodion ac effeithiau biolegol.

7. Dywedodd Creighton Harvey, CFF, fod un o'r argymhellion yn cyfeirio at y Cynllun Ffermio Cynaliadwy[1]. Un cam gweithredu arfaethedig yn y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yw diogelu priddoedd rhag erydu a dirywio trwy dyfu cnwd gorchudd ar y tiroedd a fyddai wedi cael eu gadael yn ddi-gnwd dros y gaeaf. Dywedodd Creighton fod Pennod 5 y Cod Ymarfer Amaethyddol Da[2] yn ymdrin â rheoli maethynnau a bod Pennod 4 yn ymdrin â hwsmonaeth pridd. Trafododd Creighton rai materion lleol yr oedd wedi sylwi arnynt yn ymwneud â phridd noeth a diffyg cnydau gorchudd yn y gaeaf. Pe bai sector mawr o ffermwyr yn penderfynu peidio ag ymuno â'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy (e.e. godro dwys), beth fyddai CNC yn ei argymell o ran cyfundrefnu Pennod 4 o'r Cod Ymarfer Amaethyddol Da? Dywedodd Hilary ei bod yn deall y pryderon ynglŷn â phridd noeth. Cytunodd Sarah Hetherington, CNC fod yna rai ardaloedd lle mae erydiad pridd a rheoli pridd yn peri problemau. Rydym yn mynd i'r afael â gwaith gyda Llywodraeth Cymru mewn perthynas â lleoliad y risgiau hynny mewn gwahanol ddalgylchoedd. Ym mis Rhagfyr 2023, cyhoeddwyd Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ynglŷn â'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy; y dyddiad cau yw 7 Mawrth 2024. Atgoffwyd y grŵp bod yr ymgynghoriad hwn yn gyfle i gyflwyno adborth ar gynnwys y cynllun. Dywedodd Creighton y byddwn yn cyflwyno adborth ar y pwynt hwn yn ddi-os. Mae'r gaeaf hwn, yn arbennig, wedi dangos pa mor ddifrifol yw'r sefyllfa o gofio cymaint o law a gafwyd a pha mor aml y gwelwyd llifogydd lleol o ganlyniad i gaeau noeth dros y gaeaf.

8. Nododd Gareth Parry, FUW, fod yna ansicrwydd mawr ynglŷn â chwmpas camau dewisol a chydweithredol y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn yr hirdymor, yn ogystal ag ansicrwydd ynglŷn â'r gyllideb gyffredinol ar gyfer Materion Gwledig. Ar hyn o bryd, ni wyddom faint o ffermwyr a fydd yn ymhél mewn gwirionedd â'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy, ond efallai hefyd y bydd angen goresgyn rhwystrau cyllidebol o ran i ba raddau y gall y cynllun fynd y tu hwnt i'r camau gweithredu cyffredinol. Gallai rhannau o'r gwaith cydweithredol ddigwydd mewn dalgylchoedd, ond ni wyddom a fydd modd i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy ariannu'r gwaith hwnnw.

   Gofynnodd Gareth a yw monitro cydymffurfiaeth ar Afonydd ACA yn dal i fod ar waith a gofynnodd pryd y gallwn ddisgwyl yr adroddiad cydymffurfio nesaf. Dywedodd Hilary fod CNC yn defnyddio adroddiad cyfnod data 2017-2019 fel llinell sylfaen ac y bydd yr adroddiad nesaf yn cael ei wneud eleni.

---

[1] https://www.llyw.cymru/cynllun-ffermio-cynaliadwy-canllaw
[2] https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-02/cod-ymarfer-amaethyddol-da-cyflawniad.pdf

9. Holodd Tom Johnstone, Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, ynglŷn ag effaith gymharol un digwyddiad llygredd ar ecosystemau. Esboniodd Hilary y broses asesu sydd ynghlwm wrth Fonitro Safonau Cyffredin (gwerth cymedrig/pasio/methu). Wrth drafod a oes yna wahaniaeth yn y ffordd mae'r ecoleg yn ymddwyn, dywedodd Hilary fod yna bosibilrwydd na fyddai'r nodweddion ecolegol yn adfer pe bai problem gronig i'w chael mewn is-afon. Ond pe bai un digwyddiad acíwt difrifol yn digwydd, mae yna bosibilrwydd y byddai'r nodweddion ecolegol yn adfer. Rydym hefyd yn edrych ar batrymau data er mwyn gweld ai problemau cronig ynteu digwyddiadau untro a geir.

10. Dywedodd Ben Wilson fod rhai cyrff dŵr yn cael eu hasesu ar gyfer rhai paramedrau, ond nid ar gyfer paramedrau eraill, a gofynnodd a oedd hyn yn seiliedig ar asesiad risg. Yn ôl Hilary, mae dwy brif elfen yn ysgogi ein rhaglen wyliadwriaeth a monitro, sef: gwaith monitro'n ymwneud â'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr a monitro Ardaloedd Cadwraeth Arbennig. Deellir bod yna elfen o flaenoriaethu er mwyn gweld ble i dargedu'r adnoddau yn y ffordd orau. Yn ôl Ben, pan soniwn am ystyriaethau ecolegol mewn perthynas â pherfformiad ansawdd dŵr, mae rhai o'n nodweddion ecolegol o dan bwysau ychwanegol o du problemau eraill, ac o'r herwydd maent yn fwy agored i niwed. Efallai na fyddai digwyddiad llygredd untro yn achosi problem fawr i rai nodweddion, ond gallai beri problemau i boblogaethau eogiaid, megis eogiaid yn Afon Rhiangoll, gan fod ffactorau eraill eisoes yn effeithio ar y poblogaethau hynny, fel tymheredd, llif, goroesiad yn y môr etc.

11. Dywedodd Jon Goldsworthy, CNC, ei fod yn bwriadu dod â chyflwyniad i'w ddangos i'r grŵp yn ymwneud â Phrosiect Arddangos Teifi. Mae'r prosiect wrthi'n cael ei ddatblygu, a'i nod yw archwilio dulliau gwahanol. Mae a wnelo'r prosiect â gwella ansawdd y dŵr yn nalgylch Afon Teifi, ond mae hefyd yn anelu at ddysgu pethau ac ehangu i ddalgylchoedd eraill. Rydym wedi cyflwyno cais i Ofwat ar gyfer gwaith arloesol yn y dalgylch ac mae 16 o bartneriaid wedi ymrwymo iddo. Ond ni chawn wybod tan ddechrau'r Haf a fyddwn yn llwyddiannus, ai peidio. Ar hyn o bryd, ceir tri phrif faes gwaith, sef: monitro/delweddu data, atebion seiliedig ar natur a defnydd tir a chanfod dull gwahanol (e.e. cydweithredu, gwahanol fathau o reoleiddio etc.). Mae gennym gyfle i wneud rhywbeth gwahanol mewn un dalgylch a mesur y llwyddiant. Mae cyfarfodydd sydd ar ddod yn cynnwys cyfarfod partneriaeth ar 14 Chwefror a hacathon (28 a 29 Chwefror, Prifysgol Aberystwyth), lle bydd grŵp ehangach o randdeiliaid yn trafod ac yn archwilio syniadau ynglŷn â'r hyn a allai fod yn bosibl yn y dalgylch hwn.

12. Yn ôl Chris Mills, pwysleisiwyd ar ddechrau'r cyflwyniad hwn mai'r afonydd hyn yw'r afonydd pwysicaf yng Nghymru o safbwynt cadwraeth natur; eto i gyd, nid oes gennym ddigon o adnoddau i werthuso'u statws yn llwyr. Gofynnodd Chris a oedd y mater hwn wedi cael ei drafod yng nghyfarfodydd Bwrdd CNC. Dywedodd Rhys fod y mater yn cael ei drafod yng nghyfarfodydd Bwrdd CNC, ynghyd â heriau ehangach yn ymwneud â llygredd, o gofio bod llygredd yn un o blith tri o'r amcanion llesiant a nodir yng Nghynllun Corfforaethol newydd CNC[3]. Yn ddelfrydol, byddai gennym ragor o adnoddau ar gyfer casglu rhagor o ddata; serch hynny, mae hyn ar frig agenda'r Bwrdd. Hefyd, awn ati'n rheolaidd i gynnal cyflwyniadau a thrafodaethau ynglŷn â'r Afonydd ACA a materion yn ymwneud ag ansawdd dŵr. Dywedodd Steve ei fod yn crybwyll y mater hwn yn aml iawn. Mae dod o hyd i adnoddau ar gyfer monitro ac asesu yn her i bob corff rheoleiddio. Ers 10 mlynedd neu fwy, gwelwyd gostyngiad mawr mewn ymdrechion samplu. Mae'r materion hyn yn fawr ac yn ddrud, fel rhoi arian

---

[3] https://naturalresources.wales/about-us/what-we-do/strategies-and-plans/our-corporate-plan-to-2030-nature-and-people-thriving-together/?lang=cy

i dirfeddianwyr i wneud pethau priodol, mae addasu i newid hinsawdd yn waith eithriadol o ddrud, mae ymdrin â llygredd yn ei holl ffynonellau yn waith sylweddol iawn etc. Mae trafodaeth ddiddorol yn datblygu ynghylch i ba raddau y dylai'r llywodraeth fod yn gyfrifol am hyn, a pha un a allai cyllid preifat helpu. Dywedodd Steve ei fod yn monitro'r hyn sy'n digwydd gyda'r Bwrdd Marchnadoedd Amgylcheddol yn Lloegr. Mae'r Bwrdd hwn yn defnyddio systemau trwyddedu i ariannu tirfeddianwyr i reoli gwastraff, rheoli maethynnau, datblygu gwlyptiroedd a gwneud amryfal bethau eraill y telir amdanynt gyda thrwyddedau a ddaw gan ddatblygwyr sydd, er enghraifft, eisiau adeiladu tai neu addasu faint o faethynnau a gaiff eu gollwng o weithfeydd trin dŵr gwastraff. Fodd bynnag, ceir rhywfaint o nerfusrwydd ynghylch i ba raddau y dylem ddefnyddio cyllid preifat. I grynhoi, rydym yn ymdrin â materion parhaus eithriadol o bwysig yn ymwneud â bioamrywiaeth, llygredd a newid hinsawdd, a bydd yr atebion yn ddrud.

## Eitem 3: Diweddariad gan CNC ynglŷn â risgiau i ansawdd dŵr yn sgil dip defaid.

13. Ymunodd Thomaz Andrade, CNC â'r cyfarfod i roi cyflwyniad yn sôn am ymchwiliadau diazinon. Cyflwynodd Thomaz drosolwg o'r sefyllfa, yn cynnwys cefndir y statws cemegol a'r methiannau cemegol, crynodeb o ganlyniadau samplu a thrafodaeth fer yn sôn am ddadansoddi achosion sylfaenol. Hefyd, tynnodd sylw at rai o'r camau/mesurau nesaf.

14. Soniodd Creighton am y camau a'r mesurau nesaf, yn enwedig yr angen i ddeall ffynonellau a llwybrau eraill yn well. Gofynnodd Creighton a oes unrhyw gyfyngiadau o ran adnoddau yn cymhlethu'r gwaith. Dywedodd Thomaz fod y gwaith monitro wedi lleihau, ond llwyddodd CNC i oresgyn hyn trwy flaenoriaethu safleoedd, trwy gynnal asesiadau risg a thrwy weithio gyda phartneriaid (e.e. gweithio gyda chydweithwyr a'r diwydiant dŵr i ddatblygu rhaglen y clafr) etc. Trafododd Thomaz heriau'n ymwneud â gwirio cydymffurfiaeth, asesu ffermydd a'r risg o du gwaredu didrwydded.

15. Holodd Creighton am y cyfyngiadau adnoddau mewn perthynas â chynnal rhagor o waith i ddeall y llwybrau. Dywedodd Thomaz ein bod yn gwneud cymaint ag y gallwn o fewn yr adnoddau. Mae deall y materion wedi ein galluogi i ystyried mesurau posibl (e.e. gwella dulliau gwaredu).

16. Dywedodd Creighton ei fod yn bryderus ynglŷn â llygredd na sylwir arno yn rhannau uchaf yr afonydd, a dywedodd mai'r rhai sy'n mynd i'r afael â gwaith monitro yw'r unig bobl a all sylwi ar lygredd o'r fath. Gofynnodd Creighton a oes angen rhagor o adnoddau i gwblhau ymchwil yn y maes hwn. Dywedodd Thomaz fod ein rhaglen gyfredol yn ymwybodol o'r materion hynny a'n bod yn adolygu'r sefyllfa, gan newid ein trwyddedau, gweithio gyda Llywodraeth Cymru ac ystyried ffyrdd o wella dulliau gwaredu. Caiff y mesurau eu seilio ar ddata, ac mae hyn yn dal i ddylanwadu ar safleoedd na chânt eu monitro. Yn ddelfrydol, byddem yn rhoi'r gorau i waredu ar dir ac yn troi at waredu mewn cyfleuster gwastraff, ond bydd y broses hon yn cymryd amser.

17. Dywedodd Creighton fod Frank Jones wedi cael cynnig i gymryd rhan mewn cyfarfod pellach i drafod y pwnc hwn gyda chynulleidfa ehangach. Dywedodd Creighton y gofynnwyd iddo wneud cais i gynnal y cyfarfod hwn cyn gynted ag y bo modd cyn yr haf. Cyflwynodd Rhys gyd-destun ar gyfer yr awgrym hwn – mae'n bosibl y gellir cynnal cyfarfod pwrpasol yn ymwneud â'r pwnc penodol hwn gydag amrywiaeth ehangach o unigolion fel y gallwn archwilio rhai o'r materion a'r heriau sy'n gysylltiedig â monitro a

gwaredu dip defaid. Dywedodd Rhys y bydd yn ceisio trefnu’r cyfarfod hwn yn ystod y Gwanwyn.

***PG02 29 Ionawr: Dylai Bronwen Martin weithio gydag arweinwyr y fforymau eraill a chydweithwyr ehangach i drefnu sesiwn ar wahân i drafod materion yn ymwneud â monitro dip defaid (cyn yr haf).***

18. Cydnabu Chris fod adnoddau’n gyfyngedig, ond ymddengys fod y canlyniadau’n weddol gyson o ran yr ardaloedd yr effeithir arnynt mewn gwirionedd. Awgrymodd Chris y gallai CNC deilwra’r rhaglen fonitro ar gyfer yr ardaloedd sy’n wynebu’r risg fwyaf, gan ystyried rhoi’r gorau i fonitro’r ardaloedd eraill – efallai y byddai hyn yn arwain at ddefnyddio adnoddau’n fwy effeithlon. Trafododd Thomaz flaenoriaethau anghyson. Ceir digon o dystiolaeth i greu ymateb gyda’r mesurau ar gyfer ymdrin â’r mater hwn. Yn ôl Chris, trwy dargedu’r gwaith monitro yn well, byddai modd canolbwyntio ar yr ardaloedd hynny sy’n destun pryder mawr, a dywedodd y gallai hynny atal pobl rhag gwneud y peth anghywir. Atgoffwyd y grŵp gan Thomaz mai’r clafr yw’r prif ysgogydd yn y pen draw – os ceir mwy o glafr defaid ar ryw adeg arbennig neu mewn rhyw ranbarth arbennig, yna bydd mwy o ddipio yn siŵr o ddigwydd. Awgrymodd Rhys y gallai’r sesiwn ychwanegol ganolbwyntio ar glafr defaid a’r llygredd dip defaid sy’n deillio o’r clafr, ac y gellid cael trafodaeth ynghylch a fyddai dull mwy penodol o gasglu data yn cyfrannu at esblygu polisïau yn y maes hwn. Dywedodd Thomaz fod CNC wedi trafod dulliau gwahanol gyda Choleg Sir Gâr, megis monitro’n lleol (e.e. i fyny/i lawr yr afon) o fis Awst, sef yr adeg y gwelir cynnydd mewn dipio defaid fel arfer.

19. Dywedodd Guy fod gwaith ymchwil o’r 1990au yn awgrymu mai’r cyfnod allweddol ar gyfer defnyddio diazinon oedd Gorffennaf/Awst a gofynnodd ai dyma’r gred o hyd. Ar sail ein data ni, dywedodd Thomaz mai rhwng Awst a Rhagfyr yw’r adegau allweddol, a siarad yn gyffredinol iawn. Trafododd Guy fynychder gwaith samplu’r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr a’r broblem o ran methu â chanfod problemau ysbeidiol. Esboniodd Thomaz y gyfundrefn samplu gyfredol a’r asesiadau a roddir ar waith.

20. O ran y drafodaeth ynghylch targedu gwaith monitro, dywedodd Steve fod y sefyllfa’n eithaf cymhleth. Un o nodweddion diazinon yw ei fod yn eithaf gwasgaredig o ran lle ac amser. Mae crynodiadau uwch i’w cael yn Afon Gwy, ond hefyd, yn annisgwyl, ceir crynodiadau uwch yn Afon Elái sydd hefyd yn gysylltiedig ag ardaloedd amaethyddol. Yn amlwg, ceir cysylltiad â ffermio defaid, ond efallai fod agweddau ar waredu diazinon yn wasgaredig iawn ac efallai na ellir dod o hyd iddo’n rhwydd hyd yn oed wrth dargedu’r gwaith monitro. Hefyd, rhaid inni ddeall y ddibyniaeth ar y llif a’r cysylltiad rhwng gollyngiadau a chrynodiadau. O ran adnoddau, un cemeg yn unig yw diazinon o blith nifer o gemegau problemus mewn afonydd. Mae’n debyg ein bod wedi edrych ar oddeutu 100 o leoliadau, yn bennaf yng Nghymoedd De Cymru, a daethpwyd o hyd i oddeutu 150 o gemegau gwahanol sy’n gysylltiedig â chynhyrchion fferyllol ar gyfer pobl neu gynhyrchion fferyllol milfeddygol (e.e. plaladdwyr, ffwngladdwyr etc). Byddai angen llawer iawn o adnoddau i fynd i’r afael â’r broblem hon. Mae Llywodraeth Cymru yn ceisio cyfuno adnoddau ac ymdrechion trwy gasglu ynghyd gynifer o ffynonellau gwybodaeth â phosibl (e.e. sefydliadau academaidd, sefydliadau iechyd y cyhoedd, cyrff rheoleiddio etc).

21. Diolchodd Steve ar ran Fforwm Pysgodfeydd Cymru a Fforwm Rheoli Dŵr Cymru am drefnu’r cyfarfod hwn. Bu’r sesiwn yn gyfle pwysig i drafod materion arwyddocaol iawn sy’n gyffredin i’r holl fforymau.

22. Ailddatganodd Rhys y cynnig i gynnal sesiwn untro i drafod y canlynol: materion yn ymwneud â diazinon a heriau o ran targedu casglu data, buddsoddi mewn seilwaith newydd, gwyddoniaeth dinasyddion, a rôl ffermwyr a chymunedau o ran llunio atebion posibl.

***PG03 29 Ionawr: Dylai Bronwen Martin, CNC ddosbarthu copi o’r cyflwyniad Diazinon a manylion cyswllt Thomas Andrade, CNC.***

## Eitem 4: Adolygu’r Cofnodion a’r Camau Gweithredu

23. Ar ôl adolygu cofnodion y cyfarfod a chytuno’n ffurfiol arnynt, cadarnhaodd Rhys y byddant yn cael eu cyhoeddi ar wefan CNC er mwyn i’r cyhoedd allu eu gweld. Felly, mae hi’n bwysig i’r cofnodion fod yn gofnod cywir o’r cyfarfodydd.

24. Aeth aelodau’r grŵp ati i adolygu cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 4 Rhagfyr 2023. Ni chafwyd unrhyw sylwadau ac ni dderbyniwyd unrhyw newidiadau mewn perthynas â chofnodion cyfarfod mis Rhagfyr.

25. Rhannodd Bronwen y cofnod o’r camau gweithredu a oedd heb eu cymryd. Cyflwynwyd diweddariadau llafar pan fo modd.

26. Dywedodd Rhys ei fod wedi cyfarfod â Delyth Lewis-Jones, a David Ball, y Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth a Marc Williams, CNC yr wythnos diwethaf i drafod statws adroddiad y Grŵp Technegol Amaethyddol Afonydd ACA. Mae’r grŵp hwn yn mynd i’r afael ag un mater sy’n weddill, ac yna dylai fod mewn sefyllfa i rannu’r adroddiad. Dywedodd David fod y fersiwn derfynol ar fin cael ei chwblhau ac ymrwymodd i drafod yr adroddiad ym mis Chwefror.

***PG04 29 Ionawr: Dylai Bronwen Martin, CNC ychwanegu adroddiad y Grŵp Technegol Amaethyddol Afonydd ACA at agenda cyfarfod mis Chwefror.***

## Eitem 5: Materion sy’n Codi

27. Anogwyd y grŵp i drafod materion a oedd yn deillio o gofnodion y cyfarfod blaenorol, ynghyd â dogfennau perthnasol neu bynciau diweddar.

28. Dywedodd Gareth ei fod, yng nghyfarfod mis Rhagfyr Is-grŵp y Fforwm, wedi gofyn am wybodaeth neu ‘arweiniad sut i…’ ar gyfer ffermwyr, yn ymwneud â defnyddio’r haen goleddf ar Map Data Cymru. Gofynnodd Gareth a ellid mynd ar drywydd hyn.

***PG05 29 Ionawr: Dylai Bronwen Martin, CNC, gysylltu â Nichola Salter, CNC ynglŷn â’r posibilrwydd o lunio ‘arweiniad sut i…’ ar gyfer ffermwyr yn ymwneud â defnyddio haenau Map Data Cymru.***

29. Dywedodd Andrew Chambers, Llywodraeth Cymru ei bod hi’n bwysig i Lywodraeth Cymru ymgysylltu â’r grŵp hwn ynglŷn â’r Mesurau Amgen a phroses Adolygiad 4 blynedd y Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol. Awgrymodd Andrew y gellid cael cyflwyniad a diweddariad yn y cyfarfod nesaf. Hefyd, fe fydd yna gyfle i drafod rhai o’r cynigion ar gyfer y Mesurau Amgen cyn i Lywodraeth Cymru ystyried ai priodol yw bwrw ymlaen â nhw.

***PG06 29 Ionawr: Dylai Bronwen Martin, CNC ychwanegu adolygiad 4 blynedd y Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol at agenda mis Chwefror.***

30. Soniodd Creighton am Eitem 4 yng nghyfarfod mis Ionawr ynglŷn â’r diweddariad gan Nichola ac Iwan am y Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol. Oni bai y byddai llygredd wedi digwydd, dywedwyd y byddai ffermwyr yn cael rhybudd ynglŷn â’r archwiliadau a dywedwyd y byddai hynny’n cael ei gadarnhau trwy anfon llythyr at yr holl ffermwyr cyn yr ymweliadau. Fodd bynnag, mae un mater sydd wrth wraidd digwyddiadau llygredd yn gysylltiedig â rheolaeth wael. Gofynnodd Creighton a fyddai modd i Nichola gadarnhau rhai ystadegau cyn y diweddariad nesaf – er enghraifft, dros y tair blynedd diwethaf, faint o ddigwyddiadau llygredd a achoswyd gan storfeydd slyri yn gorlifo neu oherwydd lledaenu o ganlyniad i storfeydd slyri gorlawn? Os byddwch yn rhoi 14 diwrnod o rybudd, ac os bydd slyri’n cael ei reoli’n aneffeithiol ar y fferm, bydd hynny’n rhoi amser i roi’r slyri allan mewn amodau amhriodol. Erbyn i’r archwiliad gael ei gynnal, mae yna risg y byddai pethau’n ymddangos yn iawn, er na fyddent yn iawn mewn gwirionedd.

***PG07 29 Ionawr: Dylai Bronwen Martin, CNC gysylltu â Nichola Salter, CNC ynglŷn â phroblemau posibl o ran rhoi rhybudd ysgrifenedig i ffermwyr cyn cynnal ymweliadau (e.e. rheoli slyri yn amhriodol).***

Nododd Jon Goldsworthy, CNC y pwyntiau a godwyd a dywedodd fod yn rhaid cael cydbwysedd. Mae’r rheoliadau hyn yn rhai newydd ac mae CNC eisiau rhoi pob cyfle i ffermwyr gydymffurfio â nhw. Rhaid i ffermwyr gyflwyno nifer o ddogfennau cyn i’r ymweliadau gael eu cynnal er mwyn inni allu ystyried yr elfennau cydymffurfio hynny ar y diwrnod, a rhoi adborth. Hefyd, bydd gwiriadau’n cael eu cynnal ar y diwrnod – maint buarthau, maint storfeydd slyri etc. Mae modd gwirio rhai pethau heb fynd i weld a yw’r storfa’n gorlifo. Hefyd, byddwn yn cynnal ymweliadau dilynol ar ôl yr archwiliadau cychwynnol, yn enwedig os caiff camau gweithredu eu pennu. Dywedodd Creighton y byddai’n fuddiol gweld rhai ffigurau.

Roedd Gareth o’r farn fod y pwyntiau a grybwyllwyd yn cyfeirio’n fwy penodol at archwiliadau a gâi eu cynnal fel arfer mewn ymateb i ddigwyddiadau llygredd, tra bod yr archwiliadau rheolaidd a gynhelir mewn perthynas â’r rheoliadau yn anelu at wirio bod y gwaith papur yn ei le a bod maint y storfeydd slyri yn ddigonol etc. Felly, ni waeth pa bryd y byddai archwiliadau’n cael eu cynnal, dylai’r canlyniad fod yr un fath.

31. Dywedodd Rhys fod ystadegau’n ymwneud â llygredd amaethyddol wedi’u dosbarthu cyn y cyfarfod. Yn ôl Creighton, siomedig oedd gweld tuedd ar i fyny yn 2023, ond dywedodd nad yw hynny’n syndod. Dywedodd David fod yna gydberthynas rhwng nifer y digwyddiadau a’r glawiad blynyddol. Er enghraifft, 2018 oedd y flwyddyn frig ddiwethaf a bu 2023 yn flwyddyn siomedig, gyda chynnydd a oedd, mewn gwirionedd, yn groes i’r duedd. Efallai fod hyn wedi digwydd oherwydd cynnydd mewn glawiad neu gan fod swm y glawiad wedi ychwanegu at y broblem. Cydnabu Rhys y pwynt pwysig hwn, ond dywedodd mai tasg anodd yw dwyn unrhyw gasgliadau pendant ar sail y data. Os mai glawiad ychwanegol yw’r achos, dywedodd Chris Mills nad ydym mor amyneddgar gyda chwmnïau dŵr a gorlifoedd carthffosiaeth gyfun yn ystod blynyddoedd glawiad uchel – mae a wnelo hyn â chydymffurfio. Cydnabu David bwynt Chris; dywedodd ei fod yn awgrymu bod yr elfen yn y rheoliadau newydd sy’n mynnu y dylid cael storfa o faint arbennig (rhywbeth nad yw wedi dod i rym eto) yn ceisio delio ag effaith glawiad, a goresgyn yr effaith honno, ynghyd â sicrhau bod gan ffermydd ddigon o gapasiti i ddelio â hynny.

32. Wrth edrych ar graffiau a mapiau unigol, dywedodd Gareth fod angen deall ym mha gyfnod y casglwyd y data (e.e. mapiau cronnol). Hefyd, mae’n bwysig edrych ar y

graffiau hyn, o gymharu â'r holl elfennau eraill sy'n cyfrannu at lygredd, fel canran o'r digwyddiadau llygredd cyffredinol yng Nghymru. Mae'r grŵp hwn yn canolbwyntio ar lygredd amaethyddol, ond mae'n hollbwysig edrych ar ffynonellau eraill, glawiad a dylanwadau eraill hefyd.

33. Os oes gan rywun unrhyw beth i'w gyfrannu at gylchlythyr Is-grŵp y Fforwm, soniodd Rhys fod Katy Simmons, CNC wedi dweud bod croeso i bawb anfon y cyfraniadau ati hi.

34. Llongyfarchwyd Dennis gan Rhys am iddo gael ei gydnabod yn rhestr Anrhydeddau Blwyddyn Newydd y Brenin. Llongyfarchiadau mawr gan y grŵp a chan y Fforwm ehangach ar ennill y gydnabyddiaeth gwbl haeddiannol hon. Diolchodd Dennis i'r rhai a oedd wedi ysgrifennu ato'n uniongyrchol – roedd yn gwerthfawrogi'n fawr. Dywedodd Dennis fod yr Anrhydedd Blwyddyn Newydd yn adlewyrchu ar bawb yn TFA Cymru sy'n gweithio mor galed dros denantiaid yng Nghymru.

35. Dywedodd Dennis ei fod wedi mynychu cyfarfod cyhoeddus i drafod y cynnig ar gyfer Parc Cenedlaethol newydd yng Ngogledd Ddwyrain Cymru – mae'r cynnig yn golygu y bydd y parc hwn yn fwy na'r tri Pharc Cenedlaethol arall yng Nghymru. Cyfeiriodd Dennis at drafodaeth flaenorol ynglŷn â ffermwr yn ardal Aberhonddu. Roedd y ffermwr o dan sylw eisiau gorchuddio'i storfa slyri, felly cyflwynodd gais cynllunio i'r perwyl hwnnw. Cafodd ganiatâd cynllunio, ond yna cafodd y caniatâd hwnnw ei atal gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol gan y byddai'n effeithio ar yr effaith weledol. Argymhellodd Dennis y dylai CNC, Awdurdod y Parciau Cenedlaethol a Llywodraeth Cymru gynnal trafodaeth ar frys, oherwydd mae'r mater hwn yn awgrymu bod ffermwyr yn cael eu hatal rhag ceisio cydymffurfio â'r Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol newydd – sef mater difrifol iawn. Byddai'r Parc Cenedlaethol newydd yn cynnwys cryn dipyn o ffermydd llaeth mawr iawn ac fe allai'r ymagwedd hon at geisiadau cynllunio effeithio ar lawer o bobl.

***PG08 29 Ionawr: Dylai Bronwen Martin, CNC holi cydweithwyr ynglŷn â'r heriau sy'n wynebu ffermydd mewn Parciau Cenedlaethol o ran cael caniatâd cynllunio i orchuddio storfeydd slyri.***

## Eitem 6: Unrhyw Fater Arall

36. Dywedodd Rhys fod y cyfarfod hwn wedi bod yn gyfle da i ddwyn gwahanol fforymau ynghyd i archwilio pynciau cyffredin. Diolchodd i aelodau'r grŵp am eu cyfraniadau.

37. Bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar 26 Chwefror 2024.

38. Ni chodwyd unrhyw fater arall.